

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Astudiaeth achos

# Quicklink TV

## Cwmni lleol sy'n darlledu'n fyd-eang

**Pan fyddwch yn gwylio straeon newyddion proffil uchel yn cael eu hadrodd yn fyw, mae posibilrwydd eu bod yn cael eu trosglwyddo i'r darlledwr drwy ddefnyddio technoleg Quicklink TV.**

Cafodd y cwmni technoleg hwn ei sefydlu ychydig dros ddegawd yn ôl ac fe symudodd i Abertawe yn 2013 gyda chymorth a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru. Mae'n dal i fynd o nerth i nerth.

Dywed Richard Rees, Rheolwr Gyfarwyddwr y cwmni: "Dewisais Abertawe gan fy mod eisiau symud y cwmni nôl i Gymru ac mae gan yr ardal honno ganolfan dechnoleg fawr. Mae'n fy atgoffa o Silicon Valley yng Nghaliffornia, ac rwy'n gweld potensial enfawr i'w datblygu fel lle a gydnabyddir fel y ganolfan rhagoriaeth nesaf ar gyfer technoleg uchel; ac mae hynny'n rhywbeth yr hoffwn helpu i'w gyflawni.

Mae Quicklink yn cyflenwi ei gynhyrchion i ddarlledwyr gorsafoedd teledu ar draws y byd, ac maent wedi bod yn gweithio gyda chwmnïau fel Microsoft ar amryw brosiectau ers tro byd. Roedd y cwmni ar ben ei ddigon pan gafodd wahoddiad gan Microsoft i wneud cais am waith contract pellach.



Astudiaeth achos

# Quicklink TV





Gyda chymorth Llywodraeth Cymru, fe wnaethant lwyddo i ennill y contract i gyflenwi gwasanaethau darlledu Skype TX i gwmni technoleg blaenllaw Microsoft. Defnyddir Skype TX gan ddarlledwyr teledu byd-eang i ffrydio fideo byw o safon yn fwy effeithlon a dibynadwy. Caiff Skype TX ei ddefnyddio gan raglenni realiti fel X Factor, ac mae hefyd yn galluogi gwasanaethau lle mae cleifion yn gallu cysylltu'n uniongyrchol ac mewn amser real gyda'u meddygfa drwy ddefnyddio iPad.

Dywed Richard: "Roedd cael cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru wrth fynd drwy'r broses yn help mawr. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ein helpu i gael y cyllid yr oedd ei angen arnom i ddarparu ein gwasanaethau, a hefyd ein helpu i leihau ein costau a datblygu ein cynllun busnes."

Ceir rhagor o wybodaeth am Quicklink TV yn www.quicklink.tv.

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Llywodraeth Cymru.**

**Ebost:** cymorthbusnes@cymru.gsi.gov.uk
**Gwefan:** busnes.cymru.gov.uk
**Ffôn:** 03000 6 03000

**Dilynwch ni ar** @_busnescymru a / neu @buddsoddicymru

Ymunwch â'n grŵp LinkedIn

WG26964 / © Hawlfraint y Goron 2015